TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Agored Cymru Diploma in Clinical Healthcare Support Level 3

Yn gryno

Nod y cwrs yma yw datblygu gwybodaeth a sgiliau yn y gweithlu iechyd. Mae'r cymhwyster yma'n rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth i chi ddod yn gymwys yn cefnogi Gweithwyr Proffesiynol ym maes Iechyd (e.e. meddygon, nyrsys, gweithiwr proffesiynol perthynol iechyd, gwyddonwyr gofal iechyd) sy'n darparu gofal iechyd clinigol. Byddwch yn gallu gweithio heb fawr ddim goruchwyliaeth, a bydd gennych record dda o ddiogelwch, cywiro diffygion a sicrhau bod eich gwaith yn cyrraedd y safon ofynnol.

Dyma'r cwrs i chi os...

...y sawl sy'n gweithio ym maes gofal iechyd a chanddo lawer iawn o sgiliau a gwybodaeth dechnegol.

...y rheini sy'n gweithio ym maes gwasanaethau clinigol e.e. meddygol, llawfeddygol, gofal critigol, cleifion allanol, yn y gymuned ac mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion brys, o bosibl mewn rôl arolygol, sy'n edrych ar ôl lles a chysur cleifion ac sy'n darparu cymorth hanfodol i weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Bydd angen i chi gwblhau 12 o unedau gorfodol sy'n cynnwys:

Cyfathrebu
Iechyd a Diogelwch
Dyletswydd Gofal
Cadw cofnodion
Cyfrinachedd
Diogelu
Cydraddoldeb a chynhwysiant
Gofal sy'n ganolog i'r unigolyn
Rheoli heintiau

Byddwch hefyd yn dewis o blith detholiad o unedau dewisol sy'n addas i'ch rôl swydd chi.

Ar gyfartaledd, fe gymer y cymhwyster yma hyd at 12 mis i'w gwblhau ac fe'i hasesir yn defnyddio cyfuniad o bortffolio - bydd angen i chi gynhyrchu tystiolaeth i brofi fod gennych y cymhwysedd i fodloni'r safonau NVQ; ac wrth arsylwi, bydd yr asesydd yn profi eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch perfformiad yn y gwaith i sicrhau y gallwch ddangos cymhwysedd yn y gweithle.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, ond dylech fod yn gweithio fel Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Clinigol neu Waedwr (Phlebotomist) (cymryd samplau gwaed gan gleifion (fel arfer yn yr ysbyty) er mwyn eu profi mewn labordai).

Gwybodaeth Ychwanegol Mae'r cwrs yma wedi'i gyllido'n rhannol (yn unol â thelerau ac amodau) ac fe'i darperir yn eich gweithle (fel arfer ychydig oriau bob mis).